

Mr Mark Isherwood AM
Chair – Legislation Committee 5
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

20th March 2009

0141 566 4866

Dear Mr Isherwood,

Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Welsh Language) Order 2009

Thank you for the opportunity to submit written evidence to the Committee on the above Legislative Competence Order.

ScottishPower Ltd manages regulated and competitive businesses in the UK serving more than 3 million network customers (which includes over 400,000 in North and Mid Wales) and over 5 million gas and electricity retail customers (around 192,000 are in North and Mid Wales).

Our aim is to deliver an equally high standard of service to our customers through the medium of Welsh and English.

I have enclosed for your information ScottishPower's '*Welsh Language Scheme*' which was prepared in accordance with Sections 12 to 14 of the Welsh Language Act and in accordance with guidelines issued by the Welsh Language Board. The current scheme came into effect in April 2008 and replaced the previous scheme which was approved in April 1997.

We believe our work in this area demonstrates how it is possible to provide a high standard of service to Welsh speaking customers on a voluntary basis.

With regards to the specific Legislative Competence Order, while ScottishPower engages fully in the development of legislation that affects our businesses, we do not think it is appropriate for us as company to take a position on the legislative competence of the devolved legislatures in Wales, Scotland or Northern Ireland.

We would however be delighted to provide further information to the Committee highlighting our work and experience in this area.

Yours sincerely



Phil Henderson
Head of Public Affairs



Cynllun yr Iaith Gymraeg

A baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

CYNNWYS Y CYNLLUN

CYNNWYS Y CYNLLUN

1.	CYFLWYNIAD	3
1.1	SCOTTISHPOWER	4
1.2	NODAU AC AMCANION	4
2.	CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH	5
2.1	POLISI'AU A MENTRAU	5
2.2	DARPARU GWASANAETHAU	5
2.3	GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH	6
2.4	SAFON Y GWASANAETH YN Y GYMRAEG	6
2.5	DIFFINIAD	6
2.6	Y CYNLLUN	6
3.	DELIO Â'R CYHOEDD CYMRAEG EU HIAITH	7
3.1	GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG	7
3.2	CYFATHREBU AR Y FFÔN	8
3.3	CYFARFODYDD CYHOEDDUS	8
3.4	CYFARFODYDD ERAILL	9
3.5	ENGHREIFFTIAU ERAILL O DDELIO Â'R CYHOEDD YNG NGHYSRU	9
4.	WYNEB CYHOEDDUS SCOTTISHPOWER	10
4.1	HUNANIAETH GORFFORAETHOL	10
4.2	ARWYDDION	10
4.3	CYHOEDDI AC ARGRAFFU DEUNYDD I'W DDOSBARTHU	10
4.4	GWEFANNAU	11
4.5	DATGANIADAU I'R WASG	11
4.6	HYSBYSEBU A CHYHOEDDUSRWYDD	11
4.7	HYSBYSIADAU SWYDDOGOL A CHYHOEDDUS	12
4.8	HYSBYSEBU AR GYFER RECRIWTIO STAFF	12
5.	GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN	12
5.1	STAFFIO	12
5.2	DYSGU CYMRAEG	14
5.3	RECRIWTIO	14
5.4	HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL	15
5.5	TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU	15
5.6	TREFNIADAU GWEINYDDOL	16
5.7	MONITRO	16
5.8	ADOLYGU A DIWYGIO'R CYNLLUN	17
5.9	CWYNION AC AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLIANNAU	17

1. CYFLWYNIAD

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi Cynllun yn amlinellu sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg.

Dyma ein Cynllun ni.

Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, hyd y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn ymarferol o fewn rheswm, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylai'r iaith Gymraeg a'r Saesneg ym maes busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru gael eu trin yn gyfartal.

Mae'r Cynllun yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwn ni i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y Cynllun hwn, mae'r term **cyhoeddus** yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd i gyd, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Yn ogystal, mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig ymhlyg yn ystyr y term 'cyhoeddus'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr o'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni rôl swyddogol o natur gyhoeddus, hyd yn oed os ydynt yn bersonau cyfreithiol, yn gynwysedig o fewn ystyr y gair *cyhoeddus* pan ydynt yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am faes a phwrpas Cynlluniau Iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg - www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Darparwyd y Cynllun hwn yn unol ag Adrannau 12 i 14 o'r Ddeddf – ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 15/04/08, gan ddisodli'r Cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 23/04/97.



1.1 ScottishPower

Mae ScottishPower (SP) yn rheoli busnesau rheoledig a chystadleuol yn y DU i wasanaethau mwy na 3 miliwn o gwsmeriaid trydan a nwy. Mae hyn yn cynnwys mwy na 400,000 o gwsmeriaid yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

Mae ardal Drwyddedig Cymru o'r grŵp SP yn amrywio yn ei daearyddiaeth gan gwmpasu ardaloedd diwydiannol a phoblog iawn Glannau Dyfrdwy a Wrecsam yn ogystal â pharthau mynyddig Eryri. Mae proffil ieithyddol yr ardal mor amrywiol â'i daearyddiaeth, gyda Cheredigion, Ynys Môn a Gwynedd yn Gymraeg eu hiaith gan mwyaf, gyda mwy o Saesneg yn cael ei siarad fel yr iaith gyntaf ymhellach draw i ochr ddwyreiniol yr ardal.

Nod SP yw darparu gwasanaeth i'w gwsmeriaid sydd yr un mor safonol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

1.2 Nodau ac Amcanion

1.2.1 Wrth ddelio â'r cyhoedd ac ymarfer y broses ddemocrataidd, bydd SP yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bydd y ddwy iaith yn mwynhau'r un statws a dilysrwydd.

1.2.2 Bydd ScottishPower yn:

- Cynnig i'r cyhoedd yng Nghymru yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth iddynt ddelio â'r sefydliad;
- Cydnabod bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu mynegi eu safbwyntiau a'u hanghenion yn well yn eu hoff iaith;
- Cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'u hoff iaith yn fater o ymarfer da ac nid yn gonsesiwn;
- Cydnabod y gallai gwrthod yr hawl iddynt i ddefnyddio'u hoff iaith osod aelodau o'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol iawn.

2. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH

2.1 Polisiau a mentrau

- 2.1.1 Bydd unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiau sy'n cael eu llunio gan SP yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn. Cyfeirir at y Cynllun hwn, lle bo'n berthnasol, yng nghynlluniau, mentrau a pholisiau SP. Bydd SP yn asesu canlyniadau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu gynllun newydd yn ystod y paratoi ac wrth fonitro'r polisi newydd hwnnw.
- 2.1.2 Bydd SP yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch polisiau neu fentrau arfaethedig a fyddai'n effeithio Cynllun Iaith Gymraeg SP neu Gynllun sefydliad arall. Ni newidir y Cynllun heb gytundeb y Bwrdd.
- 2.1.3 Bydd cyflwyno polisiau a mentrau yn galluogi SP i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gwasanaethau ac i symud ymlaen at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Bydd SP yn dilyn yr amcanion hyn bob cyfle posibl i sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb yn cael ei gweithredu.
- 2.1.4 Bydd y mesurau a amlinellir yn y Cynllun yn berthnasol i bob polisi a menter newydd. Sicrheir bod aelodau o staff a phawb sy'n ymwneud â'u ffurfio a'u gweithredu yn ymwybodol o'r Cynllun a gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg.
- 2.1.5 Bydd canllawiau a chyfarwyddiadau'n cael eu paratoi ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am bolisiau a chynlluniau newydd.
- 2.1.6 Bydd Panel Iaith Gymraeg SP dan Gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Hŷn yn monitro'r Cynllun hwn.

2.2 Darparu Gwasanaethau

- 2.2.1 Ein trefn arferol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg.
- 2.2.2 Rhown wybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg.

2.3 Gweithio mewn Partneriaeth

- 2.3.1 Pan mai ni yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agwedd ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun.
- 2.3.2 Pan ymunwn â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn ac anogwn bartneriaid eraill i gydymffurfio.
- 2.3.3 Mae'r uchod yn cyfeirio'n unig at bartneriaethau ffurfiol sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.4 Safon y Gwasanaeth yn y Gymraeg

- 2.4.1 Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran ansawdd ac fe'u darperir o fewn yr un amserlen.

2.5 Diffiniad

- 2.5.1 Yng nghyd-destun y ddogfen bolisi hon, Cymraeg a Saesneg yw'r ddwy iaith sydd ymhlyg yn y gair "dwyieithog".

2.6 Y Cynllun

- 2.6.1 Dylai unrhyw un sy'n dymuno trafod y Cynllun hwn â SP gysylltu ag:

Eifion Griffiths
ScottishPower
Customer & Performance England & Wales
SP EnergyNetworks
PO BOX 168
PRENTON
CH26 9AY

Ffôn: 0151 609 2390
Ffacs: 0151 609 2210

3. DELIO Â'R CYHOEDD CYMRAEG EU HIAITH

3.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

- 3.1.1 Mae croeso i'r cyhoedd ddelio â SP yn ysgrifenedig naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd gohebiaeth yn cael ei hateb a'i llofnodi gan SP yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol ac yn unol â'n Cynllun Safonau Gwarantedig.
- 3.1.2 Os gŵyr SP fod yn well gan unigolyn, grŵp neu sefydliad dderbyn llythyrau yn Gymraeg, yna defnyddir yr iaith honno mewn llythyrau a grëir gan SP. Bydd SP yn gwneud trefniadau i lunio cronfa ddata o unigolion a sefydliadau sy'n well ganddynt gyfathrebu neu ddelio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.1.3 Yn dilyn cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu alwad ffôn a wnaed trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth angenrheidiol yn cael ei hysgrifennu yn Gymraeg oni bai fod aelod o'r cyhoedd wedi dynodi fel arall.
- 3.1.4 Yn amodol ar y system sgorio y cyfeirir ato isod, bydd y cylchlythyron neu'r ohebiaeth safonol a anfonwn at y cyhoedd yn ddwyieithog oni bai y gwyddom y byddai'n well gan y derbynwyr eu derbyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.
- 3.1.5 Byddwn yn defnyddio system sgorio, mewn cytundeb â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i adnabod yn wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyron nad oes angen eu cyhoeddi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol iawn neu'n faith).

Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein trefniadau arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd.

- 3.1.6 Panel Iaith Gymraeg SP fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am roi gwybod i staff di-Gymraeg am y cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer cyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae'r uchod yn berthnasol i ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.

3.2 Cyfathrebu ar y Ffôn

- 3.2.1 Mae croeso i'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ddelio â SP ar y ffôn. Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Byddwn yn annog gweddill ein staff a leolir yng Nghymru i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog.
- 3.2.2 Os yw galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol a leolir yng Nghymru ac yn dymuno siarad Cymraeg a bod y sawl sy'n cymryd yr alwad yn methu â gwneud hynny, yna bydd y cysylltydd yn ceisio cyfeirio'r alwad at swyddog Cymraeg ei iaith yn yr adran briodol, neu at aelod o staff Cymraeg ei iaith sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 3.2.3 Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, bydd y galwr yn cael y dewis, fel y bo'n briodol, o gael siaradwr Cymraeg yn ffonio nôl mor fuan ag y bo modd, parhau'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno'u hymholiad yn Gymraeg, trwy lythyr neu e-bost.
- 3.2.4 Bydd staff yn derbyn cyngor ar sut i ddelio â galwadau ffôn oddi wrth siaradwyr Cymraeg gan gynnwys manylion swyddogion sy'n gallu delio â galwadau yn y Gymraeg o fewn holl fusnesau SP.
- 3.2.5 Bydd ein system ffôn awtomataidd yn rhoi'r dewis i alwyr o Gymru gynnal eu galwad ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd y gwasanaeth hwn ond ar gael i'r cwsmeriaid y mae eu ffonau wedi'u cysylltu i gyfnewidfa ffôn ddigidol ac i'r rhai sydd heb atal eu rhifau ffôn.
- 3.2.6 Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth ffôn, canolfannau galw neu gyfleusterau tebyg i roi gwybodaeth, gwasanaeth neu gymorth i'r cyhoedd, byddwn yn darparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Hysbysebhir hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg ei iaith. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.
- 3.2.7 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg.

3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 3.3.1 Pan yw SP yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus, dosberthir hysbysiadau dwyieithog. Bydd y rhain naill ai'n nodi bod adnoddau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw ym mha iaith y dymunant siarad.

-
- 3.3.2 Rhown wybod i fynychwyr cyfarfodydd cyhoeddus pryd fydd yr adnoddau cyfieithu ar gael - ac anogwn gyfraniadau yn y Gymraeg. Os gŵyr SP am unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, gwnaiff bob ymdrech i sicrhau bod staff Cymraeg eu hiaith yn mynychu'r cyfarfodydd.

3.4 Cyfarfodydd Eraill

- 3.4.1 Bydd croeso i gwsmeriaid sy'n ymweld â swyddfeydd SP drafod eu busnes yn y Gymraeg, os mai dyna yw eu dymuniad. Bydd SP yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol i ddelio ag ymholiadau Cymraeg eu hiaith. Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, cynigiwn y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg neu ddelio â'r mater trwy ohebu yn y Gymraeg.
- 3.4.2 Ar achlysuron pan drefnir apwyntiad i ymweld â chwsmer gartref neu rywle arall i ffwrdd o swyddfa SP, a bod y cwsmer yn dymuno i'r ymweliad gael ei gynnal yn Gymraeg, defnyddir aelod o staff Cymraeg ei iaith lle bo hynny'n ymarferol. Os nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o gysylltu ag aelod o staff Cymraeg ei iaith trwy'r ffôn, parhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater trwy ohebu yn y Gymraeg.
- 3.4.3 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.5 Enghreifftiau Eraill o Ddelio â'r Cyhoedd yng Nghymru

- 3.5.1 Bydd arolygon neu ymchwil marchnata a wneir yng Nghymru yn ddwyieithog fel arfer gan gynnwys y deunydd holi ac ateb. Wrth bennu a ddylai arolygon lleol fod yn ddwyieithog ai peidio, bydd SP yn ystyried materion megis natur y gynulleidfa darged a'r gymuned dan sylw.
- 3.5.2 Bydd hysbysiadau neu rybuddion argyfwng i gwsmeriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru yn ddwyieithog yn y manau lle mae angen ieithyddol.

4. WYNEB CYHOEDDUS SCOTTISHPOWER

4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.1.1 Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol SP yn gwbl ddwyieithog.
- 4.1.2 Defnyddir hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog SP ar benawdau'u llythyrau, slipiau cyfarch, dalennau ffacs, cardiau busnes, arddangosfeydd a chyhoeddiadau.
- 4.1.3 Bydd arweiniad ar ddefnyddio hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yn cael ei ddsbarthu i staff, dylunwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu delwedd gorfforaethol SP.

4.2 Arwyddion

- 4.2.1 Bydd yr holl arwyddion mewnol ac allanol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.
- 4.2.2 Bydd arwyddion eraill a ddefnyddir gan SP neu gontractwyr e.e. arwyddion priffyrdd ac arwyddion hysbysiadau cyhoeddus yn ddwyieithog.

4.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd i'w Ddsbarthu

- 4.3.1 Byddwn yn cyhoeddi deunydd ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, yn amodol ar y system sgorio y cyfeirir ato isod, a bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.
- 4.3.2 Os bydd angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy faith neu'n rhy drwchus), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac o'r un ansawdd - a'n harfer bob amser fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un adeg ac yr un mor gyraeddadwy â'i gilydd. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 4.3.3 Byddwn yn defnyddio system sgorio, mewn cytundeb â'r Bwrdd, i ganfod yn wrthrychol pryd dylai'r deunydd gael ei gyhoeddi fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

4.3.4 Bydd yr uchod yn berthnasol hefyd i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

4.3.5 Byddwn yn paratoi rhaglen, mewn cytundeb â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn amlinellu sut y byddwn ymhen amser yn cynyddu nifer y cyhoeddiadau dwyieithog a fydd ar gael.

4.4 Gwefannau

4.4.1 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn y Gymraeg a'r Saesneg, a darparwn fersiynau Cymraeg o dudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.

4.4.2 Byddwn yn darparu rhaglen, mewn cytundeb â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn amlinellu sut y byddwn ymhen amser yn cynyddu'r cynnwys Cymraeg ar ein gwefan.

4.4.3 Wrth gynllunio gwefannau newydd neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir gan y Bwrdd parthed datblygu gwefannau.

4.5 Datganiadau i'r Wasg

4.5.1 Bydd datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg eu hiaith yng Nghymru yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg pan fo'r dyddiadau cau yn caniatáu.

4.5.2 Gwnawn yn siŵr bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg eu hiaith.

4.6 Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

4.6.1 Pan fo SP yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w gwasanaethau a'u gweithgareddau yng Nghymru drwy arddangosfeydd, arddangosiadau, hysbysfyrddau a phortreadau, bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

4.6.2 Bydd unrhyw hysbysiadau mewn papurau Saesneg eu hiaith (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir gan mwyaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

4.6.3 Bydd staff ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio a threfnu hysbysebu, cyhoedduswydd neu ymgyrchoedd ymchwil marchnata yn cael eu hysbysu am ofynion y Cynllun ac yn derbyn arweiniad ynghylch ei weithredu.

4.7 Hysbysiadau Swydddogol a Chyhoeddus

4.7.1 Bydd hysbysiadau swydddogol a hysbysiadau cyhoeddus sy'n ymddangos yng Nghymru yn cael eu dangos fel arfer gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Byddant hefyd yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau, arwyddion safleoedd neu fel arall. Bydd hysbysiadau a hysbysebion papurau a chylchgronau Cymraeg fel arfer yn Gymraeg yn unig, a'r rheiny a gyhoeddir mewn papurau newydd a chylchgronau'r DU yn Saesneg yn unig fel arfer.

4.8 Hysbysebu ar gyfer Recriwtio Staff

4.8.1 Bydd pob hysbyseb am recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cwmni yn ddwyieithog, ar wahân i:

- (a) Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau newydd cyfrwng Cymraeg, a fydd yn y Gymraeg yn unig.
- (b) Hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau newydd cyfrwng Saesneg am swyddi lle mae'r iaith Gymraeg yn gymhwyster hanfodol; dylai'r rhain fod yn y Gymraeg gyda nodyn eglurhaol byr yn Saesneg.

4.8.2 Dosberthir arweiniad ar weithredu'r mesurau hyn i staff sy'n ymwneud â chynllunio a chynhyrchu hysbysebion recriwtio staff.

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

5.1 Staffio

5.1.1 Mae SP yn cydnabod yr angen am gyflogi digon o weithwyr Cymraeg eu hiaith sydd â'r sgiliau priodol i fedru gweithredu'r Cynllun hwn, yn enwedig gweithwyr sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â chwsmeriaid.

5.1.2 Bydd SP yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, a byddant yn llunio disgrifiadau swydd yn unol â hynny. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel hanfod o'r

gweithle neu'r tîm yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei atodi wrth swydd benodol.

- 5.1.3 Fel rhan o'u harolwg o weithrediad y Cynllun, bydd SP yn monitro nifer y siaradwyr Cymraeg neu'r rhai sy'n dysgu Cymraeg, a'u lleoliad o fewn y sefydliad er mwyn sefydlu a monitro adnoddau ieithyddol y Cwmni. Bydd yn cadw rhestr o bob gweithiwr sy'n gallu siarad Cymraeg gan sicrhau bod hysbysebion am swyddi a disgrifiadau swyddi yn y cyfryngau yn adlewyrchu gofynion y Cynllun hwn fel y bo'n briodol.
- 5.1.4 Mae SP yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r cyflenwad trydan, ac mae llawer o'r rhain yn gofyn am sgiliau proffesiynol a thechnegol arbenigol i'w cyflawni. Fydd hi ddim yn ymarferol i bob gwasanaeth gael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg ond fe fydd y staff yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwasanaeth o ansawdd da. Y nod yw adeiladu cyflenwad o staff a all helpu'r cyhoedd Cymraeg ei iaith o fewn gwasanaeth integredig.

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder trwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

5.2 Dysgu Cymraeg

5.2.1 Bydd SP yn annog a chefnogi aelodau o staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg llafar neu ysgrifenedig.

5.2.2. Rhoddir blaenoriaeth hyfforddiant i staff yn y meysydd o wasanaeth lle mae cyswllt rheolaidd â'r cyhoedd Cymraeg ei iaith neu lle mae diffyg canfyddadwy o staff sy'n siarad Cymraeg.

5.2.3. Bydd Panel Iaith Gymraeg SP yn datblygu rhaglen dysgu Cymraeg, sy'n diwallu anghenion SP wrth weithredu'r Cynllun. Bydd yr hyfforddiant hwn hefyd yn fodd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg y di-Gymraeg.

5.3 Recriwtio

5.3.1 Wrth recriwtio staff newydd gwneir asesiad o ofynion ieithyddol y swydd.

5.3.2 Bydd Panel yr Iaith Gymraeg yn archwilio anghenion gwasanaethau a chanfod y blaenoriaethau ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn ateb gofynion y Cynllun. Wrth wneud hyn, bydd y Panel yn ystyried y sefyllfaoedd lle mae recriwtio staff Cymraeg eu hiaith yn hanfodol neu'n ddymunol er mwyn darparu gwasanaeth mor gyflawn â phosibl. Lle bydd gallu ieithyddol yn cael ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol, nodir hynny yn yr hysbysebion swyddi.

5.3.3 Mewn achos lle mae'r Gymraeg yn un o sgiliau hanfodol y swydd, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu felly gan ddatgan y byddai disgwyl i unrhyw siaradwr di-Gymraeg a benodir i'r swydd ddysgu'r iaith gyda phob cymorth oddi wrth SP. Bydd hyn yn digwydd o fewn cyfnod rhesymol, a fydd wedi'i drafod a'i gytuno gan ddeiliad y swydd, i safon lle gall ef/hi siarad yr iaith yn ddigon da i gyflawni cyfrifoldebau'r swydd yn effeithiol. Bydd y cyfnod rhesymol yn cael ei adolygu a'i fonitro gan Bennaeth Personél SP.

5.3.4 Pan na ellir dod o hyd i ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith sy'n addas ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol (neu lle mae ymgeisydd nad sy'n gallu siarad Cymraeg wedi'i benodi ac wrthi'n dysgu'r iaith) gwnawn drefniadau dros dro lle gellir darparu'r gwasanaeth Cymraeg (e.e. wrth ddefnyddio staff Cymraeg eu hiaith o rywle arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

5.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 5.4.1 Bydd Rheolwyr Hŷn mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Personél yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer aelodau dynodedig o staff.

5.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- 5.5.1 Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, yn cael ei ddiwallu wrth i ni ddatblygu, dyfeisio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 5.5.2 Byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg - a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn.
- 5.5.3 Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, byddwn yn rhoi ystyriaeth i *Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.

5.6 Trefniadau Gweinyddol

- 5.6.1 Mae'r Cynllun wedi'i gymeradwyo a'i awdurdodi'n llwyr gan Fwrdd Cyfarwyddwyr SP.
- 5.6.2 Gan y Rheolwr Gyfarwyddwr y mae'r cyfrifoldeb pennaf am sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol a bydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy sefydlu Panel Iaith Gymraeg.
- 5.6.3 Mae'r Panel yn cynnwys rhai o reolwyr hŷn SP gan gynnwys y Rheolwr Personél. Byddant yn cynghori rheolwyr ynglŷn â'r camau sydd eu hangen i weithredu'r Cynllun o fewn eu hadrannau.
- 5.6.4 Bydd SP yn paratoi, ac yn diweddarau'n rheolaidd, cynlluniau gweithredu manwl ar wahân ar gyfer y Busnes Adwerthu a'r Rhwydweithiau Ynni, mewn cytundeb â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y cynlluniau gweithredu yn disgrifio sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn. Daw'r cynlluniau gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r Cynllun i rym, neu mor fuan â phosibl wedi hynny. Bydd y cynlluniau'n cynnwys targedau, dyddiadau cau ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed. Nod gyffredinol y cynlluniau gweithredu fydd sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymadau a restrir yn y Cynllun hwn mor fuan ag y bo modd.
- 5.6.5 Caiff pob aelod o staff eu hatgoffa o ofynion y Cynllun a byddant yn derbyn arweiniad a chyfarwyddiadau priodol.
- 5.6.6 Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio cyfieithwyr sydd â chymwysterau proffesiynol yn unig i'n helpu i weithredu'r Cynllun hwn yn llwyddiannus.
- 5.6.7 Bydd unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad sydd wedi cael sylw penodol yn y Cynllun hwn, yn cael ei drin mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y Cynllun hwn.

5.7 Monitro

- 5.7.1 Bydd SP yn monitro pa mor dda y mae'n delio â'u hymrwymadau yn y Cynllun hwn yn erbyn y targedau a restrir yn y cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Bob chwarter, bydd Cadeirydd Panel yr Iaith Gymraeg yn adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr SP yng nghyfarfodydd rheolaidd y rheolwyr.
- 5.7.2 Cyfrifoldeb Panel yr Iaith Gymraeg fydd cydgysylltu a gweithredu'r Cynllun, ynghyd â'i arolygu a'i adolygu. Os gwneir cais gan Fwrdd yr

Iaith Gymraeg, bydd Cadeirydd y Panel yn darparu adroddiad i'w gyflwyno gan SP i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Byddwn yn defnyddio trefn hunanasesu, i'w gytuno â'r Bwrdd, er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y targed.

5.8 Adolygu a Diwygio'r Cynllun

5.8.1 Byddwn yn adolygu'r Cynllun o fewn pedair blynedd wedi iddo ddod i rym.

5.8.2 Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r Cynllun hwn, neu gynnig gwelliannau i'r Cynllun hwn, oherwydd newidiadau yn ein swyddogaethau, neu yn yr amgylchiadau rydym yn cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

5.9 Cwynion ac Awgrymiadau am Welliannau

5.9.1 Dylai cwynion sy'n ymwneud â'r Cynllun hwn, neu awgrymiadau ar sut i wella'n gwasanaeth iaith Gymraeg, gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig a'u cyfeirio at:

Cadeirydd Panel yr Iaith Gymraeg
SP EnergyNetworks
PO BOX 168
PRENTON
CH26 9AY